Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Cyfoeth Naturiol Cymru

Cyfarfod o'r Bwrdd

16eg Hydref 2013

Teitl y Papur	**Diweddariad Cyllid – Awst 2013**
Cyfeirnod y Papur:	NRW B (O) 42.13
Paratowyd y Papur Gan:	

Pwrpas y Papur:	Darparu'r Bwrdd gyda diweddariad ar y sefyllfa ariannol ar gyfer 2013/14.
Argymhelliad:	Nodi cynnwys y papur
Penderfyniad sydd ei Angen:	Nid yw'n berthnasol

Effaith: Nodwch – efallai na fydd yr holl benawdau'n berthnasol i'r pwnc	**Effaith ar yr Amgylchedd**: Bydd defnydd effeithiol o'n hincwm yn sicrhau bod adnoddau prin yn cael eu canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau sydd yn flaenoriaeth. **Effaith ar yr Economi**: Mae defnydd effeithiol o'n hadnoddau yn sicrhau ein bod yn arddangos gwerth am arian i gwsmeriaid yr ydym yn codi tâl arnyn nhw am ein gwasanaeth. **Effaith ar Gymuned**: Mae defnydd effeithiol o'n hadnoddau yn sicrhau ein bod yn mwyhau ein buddion i gwsmeriaid. **Effaith ar Wybodaeth**: Nid yw'n berthnasol.

Pwnc

1. Darparu'r Bwrdd gyda diweddariad ar berfformiad ariannol hyd ddiwedd Awst 2013.

Cefndir

2. Yn y cyfarfod diwethaf gwnaethom adrodd ein bod wedi gallu rheoli ein diffyg yn llwyddiannus i lawr o sefyllfa agoriadol o £3.5m i sefyllfa gytbwys bron. Fodd bynnag, rydym wedi ymrwymo i gyllido gwaith ar *P. ramorum* yn y flwyddyn ariannol hon o £2.3m, sydd wedi diweddu mewn sefyllfa o ddiffyg diwygiedig o £2.4m.

3. Mae cais wedi gyflwyno i LlC am gyllid ar gyfer *P. ramorum* ac os bydd yn llwyddiannus byddai'n lleihau'r diffyg i £0.4m.

4. Gwnaethom adrodd i'r Tîm Gweithredol ar 13eg Awst am ganlyniadau Chwarter 1 o Adolygiad y Gyllideb a wnaed yn y Cyfarwyddiaethau. Cymeradwywyd y sefyllfa gan y Tîm Gweithredol ac mae'r ffigyrau sydd yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y sefyllfa ddiwygiedig hon.

5. Mae Cyfrifon Blynyddol ar gyfer 2012/13 i Asiantaeth yr Amgylchedd, y Cyngor Cefn Gwlad a'r Comisiwn Coedwigaeth wedi cael eu rhoi ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru. Yn ogystal, rydym wedi derbyn Llythyrau Rheoli ar gyfer y Cyngor Cefn Gwlad a'r Comisiwn Coedwigaeth sydd wedi cael eu hystyried gan PASR.

Cynigion a'r Camau Nesaf

Perfformiad ariannol fel ar Awst 2013

6. Mae copi o'r Adroddiad Perfformiad diweddaraf am fis Awst wedi'i gynnwys yn Atodiad 1.

   Y pwyntiau allweddol ar gyfer adroddiad mis Awst yw:

   - Mae Perfformiad Ariannol yn awr yn cael ei fesur yn erbyn dyraniad y gyllideb a phroffiliau diwygiedig a gymeradwywyd gan y Tîm Gweithredol ar 13eg Awst.

   - Y gwariant i ddiwedd Awst oedd £66.8m yn erbyn cyllideb hyd yma o £67.6m, sy'n cynrychioli tanwariant o 1.2%. Tra bod costau staff ar y trywydd cywir, y prif reswm am yr amrywiad yw oherwydd amseru gwaith yn erbyn cynlluniau prosiect; 5.3% ar brosiectau refeniw a 3.7% ar brosiectau cyfalaf.

   - Mae'r incwm (ac eithrio Cymorth Grant) ychydig yn is na'r proffil, gyda gwir incwm o £42.3m yn erbyn cyllideb o £42.6m, amrywiant o £0.3m neu 0.6%. Y ddau brif faes o amrywiant yw: mae incwm Cynaeafu a Marchnata ar hyn o bryd £0.6m y tu ôl i'r proffil, er bod y rhagolwg cyflawn ar gyfer incwm Coed a Marchnata yn awgrymu bod yr incwm blynyddol yn parhau i fod ar y targed. Rydym yn parhau i fonitro'r sefyllfa hon oherwydd gall rhagolygon newid fel y mae amodau masnachu ac yn wir amodau tywydd yn newid. Mae incwm o ffioedd yn ogystal ychydig ymlaen o'r proffil a gynlluniwyd hyd at ddiwedd Awst.

   - Mae ystadegau cydymffurfio da wedi cael eu cynnal. Mae'r ddyled dechnegol yn parhau'n isel ac mae'r perfformiad talu cyflenwyr mewn 30 diwrnod (93%) o fewn targed y Swyddfa Gabinet.

Sefyllfa'r Gyllideb 2013/14

7. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau £1.5m ychwanegol ar gyfer Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf i Reoli Perygl Llifogydd ac Arfordiroedd. Mae hyn yn ein galluogi i gynyddu ein buddsoddiad yn y rhaglen yn ystod y flwyddyn ariannol eleni a'i gyflawni o fewn ein targed ariannol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

8. Bydd y Gweinidog yn ystyried ein cais gyda phwysau heb ei ariannu ar gyfer *P. ramorum*. Mae adolygiad o'r achos ariannol wedi'i gyflwyno i Llywodraeth Cymru. Os bydd y cais hwn yn llwyddiannus, bydd y diffyg yn lleihau o £2.0m. Os bydd yn aflwyddiannus, bydd angen i'r Tîm Gweithredol benderfynu ar gytuno i ymestyn cyllideb y prosiect at y £3.5m sydd ei angen er mwyn cynnwys y gwariant arfaethedig yn ystod y flwyddyn ariannol hon, ac i benderfynu sut bydd yn cael ei ariannu.

9. Rydym yn cynnal piblinell fyw o gynigion sydd wedi'u blaenoriaethu gan y Cyfarwyddiaethau am arian ychwanegol eleni. Mae'r rhain ar hyn o bryd yn gyfanswm o £1.8m ond gallan nhw gynyddu fel mae'r flwyddyn ariannol yn mynd yn ei blaen. Bydd penderfyniad y Tîm Gweithredol a fydd y rhain yn mynd yn eu blaenau ai peidio'n dibynnu os gallwn ni leihau'r diffyg presennol o ganlyniad i lwyddiant gyda chais y *P. ramorum* neu drwy ffyrdd eraill.

Risgiau

10. Ein prif flaenoriaeth yw cyflawni ein targedau a'n canlyniadau ariannol erbyn diwedd y flwyddyn, ac rydym yn hyderus ein bod ar y trywydd iawn i gyflawni hyn. Mae cyrraedd y targed hwn yn ddibynnol ar ein gallu i reoli'r pwysau ychwanegol heb ei ariannu a nodwyd yn y flwyddyn. Mae'r Adran Gyllid yn parhau i weithio gyda rheolwyr cyllideb y Cyfarwyddiaethau er mwyn monitro ac adolygu ein perfformiad ariannol yn agos yn ystod y flwyddyn.

Goblygiadau Ariannol

11. Mae'r papur wedi'i gynllunio i amlygu'r goblygiadau ariannol i Gyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2013/14.

Cyfathrebu

12. Mae cyfathrebu'r pynciau yn yr adroddiad hwn wedi'u hadrodd wrth y Tîm Gweithredol yn ystod mis Medi, ac mewn mwy o fanylder i dimau'r Cyfarwyddiaethau unigol.